**COFNODION GRŴP TRAWSBLEIDIOL**

**20 MEDI**

Cyflawni uchelgeisiau polisi drwy fentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a modelau a arweinir gan y gymuned

*Yn bresennol:*

Vikki Howells AS
Daniel Roberts
Robin Lewis
Jon Parker (siaradwr)
Sandy Clubb (siaradwr)
Anne Collis
Becky Lythgoe
Bethan Webber
Billy Jones
Harry Jones
Ingrid Wilson
Ioan Bellin
Jonathan Evershed
Luke Fletcher AS
Maggie Joan Haggas
Martin Downes (siaradwr)
Naomi Gaskell
Paul Stepczak
Phil McGrath
Shan Williams
Yasmin Zahra

Agorwyd cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol drwy gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol y grŵp. Cafodd Vikki Howells AS ei chynnig fel Cadeirydd, a chafodd y cynnig hwn ei eilio gan Mark Isherwood AS. Yn sgil hynny, cafodd Vikki ei hail-ethol i'r rôl honno. Diolchodd Vikki i bawb a chymerodd yr awenau fel Cadeirydd y cyfarfod. Yna, cafodd Luke Fletcher AS ei gynnig gan Vikki fel Is-gadeirydd y grŵp, a chafodd y cynnig hwn ei eilio gan Daniel Roberts. Yn sgil hynny, cafodd Luke ei ethol i'r rôl honno. Yna, cafodd Daniel Roberts o sefydliad Cwmpas ei gynnig gan Vikki fel Ysgrifennydd y Grŵp, a chafodd y cynnig hwn ei eilio gan Peredur. Yn sgil hynny, cafodd Daniel ei ethol i'r rôl honno. Yna, cafodd aelodaeth y Grŵp ar gyfer y flwyddyn nesaf ei chadarnhau, a chafodd yr Adroddiad Blynyddol a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod ei gadarnhau hefyd.

Yn dilyn hynny, trodd sylw'r cyfarfod at y pwnc dan sylw, sef sut y gall mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol lenwi'r 'bwlch gweithredu' a chwarae rôl hanfodol yn y broses o gyflawni uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru. Rhoddodd Daniel Roberts drosolwg o'r ymarfer gwerthuso a gynhaliwyd yn ddiweddar mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dyma rai o ganfyddiadau'r ymarfer hwnnw:

- Mae cryfderau cyson ar draws ystod o randdeiliaid wedi'u nodi yng nghyfnod cyntaf oes y Ddeddf (yn ôl yr hyn a ddeddfwyd).

- O ran yr ail gyfnod, pan gafodd y Ddeddf ei throsi o'r dudalen i'r ddarpariaeth (yn ôl yr hyn a roddwyd ar waith), mae'r darlun yn un cadarnhaol ar y cyfan, er bod rhai elfennau cymysg yn hynny o beth.
- Mae persbectif llawer mwy negyddol yn cael ei gynnig gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr nad ydynt yn gallu cyflawni canlyniadau boddhaol o ganlyniad i'r gofal a'r cymorth a ddarperir, yng nghyd-destun y graddau o gysondeb y byddent yn dymuno eu gweld (yn ôl y profiadau a gafwyd).

Canfu'r gwerthusiad fod hyn wedi arwain at teimlad ymhlith nifer o'r bobl a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon eu bod wedi'u datgysylltu o'r addewid a oedd ynghlwm wrth yr egwyddorion hynny. Gellir priodoli hynny'n rhannol i ffactorau sydd wedi effeithio ar wasanaethau cymdeithasol ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu, ac mae'r rhwystredigaeth sy'n gysylltiedig â hyn wedi tyfu. Nid yw'r daith tuag at wireddu nod uchelgeisiol y Ddeddf wedi'i chwblhau. Y cwestiwn, felly, yw sut beth fydd y cam nesaf ar y daith honno, pwy sydd angen mynd ar y daith, i ble mae'r daith yn arwain, a phryd y byddwn yn gwybod pan fyddwn wedi cyrraedd ein cyrchfan? Yn ystod y cyfarfod hwn, ceisiodd y grŵp trawsbleidiol archwilio sut y gallai mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol fod yn rhan o'r datrysiad i'r sefyllfa hon, a hynny ar draws pob maes deddfwriaeth a pholisi.

Sandy Clubb, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Ein siaradwr nesaf oedd Sandy Clubb o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Gwnaeth Sandy amlinellu egwyddorion ac uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan sôn am sut yr oeddent yn cyd-fynd yn dda â'r modelau ar gyfer mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol, gan gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy, sef i "weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau", a'r saith nod llesiant cenedlaethol. Gwnaethom glywed am y pum ffordd o weithio: atal, cydweithio, integreiddio, cynnwys a hirdymor.

Rhoddodd Sandy enghreifftiau o'r Ddeddf ar waith, gan gynnwys penderfyniadau diweddar y Llywodraeth ynghylch ffordd liniaru'r M4, y cynllun peilot ar incwm sylfaenol a'r ffaith bod sefydliad Trafnidiaeth Cymru wedi defnyddio nodau'r Ddeddf yn ei broses gaffael i weithio gyda menter gymdeithasol. Soniodd Sandy am brosiect "Ffocws Ein Dyfodol", sef y prosiect y mae'r Swyddfa'n gweithio arno ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae'r Swyddfa'n profi canlyniadau ei gwaith ymchwil gyda ffrindiau beirniadol, a rhannodd Sandy rhai syniadau gyda'r grŵp.

Yn olaf, soniodd Sandy am sut y gall menter gymdeithasol ymgysylltu â gwaith y Swyddfa – yng nghyd-destun creu economi adfywiol, gan ofyn sut beth fyddai economi llesiant, sut y gellid mesur hyn, a sut y gellid cefnogi mentrau cymdeithasol i gymhwyso'r Ddeddf i'w strategaethau a'i gweithrediadau. Mae cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn rhan allweddol o greu economi llesiant, a gallant gefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, megis drwy gaffael a chomisiynu. Os ydym yn gweithio tuag at greu economi llesiant, sut beth fydd hynny ar lefel ranbarthol a lleol? Beth y gallwn ni ei wneud yn wahanol? Sut y bydd hynny'n effeithio ar gymorth busnes a benthyciadau / grantiau i fusnesau?

Jon Parker, y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad

Gwnaeth Jon, Cyfarwyddwr Cymru ar gyfer y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad, gyflwyno ei sefydliad, gan nodi ei fod yn gofyn beth yw dyfodol bwyd, ffermio a chefn gwlad, a hynny yng nghyd-destun mynd i'r afael â nifer o argyfyngau cydgysylltiedig, sef yr argyfwng hinsawdd, yr argyfwng natur, yr argyfwng iechyd ac argyfwng yr economi. Mae'r sefydliad yn gwrando ar ystod eang o leisiau o amgylch y DU, gan gynnwys lleisiau nas clywir yn aml mewn cymunedau trefol a gwledig.

Mae hefyd yn chwilio am syniadau radical ac ymarferol ar gyfer darparu system fwyd sy'n decach ac yn fwy cynaliadwy.

Soniodd Jon am adroddiad a luniwyd ganddo yn 2019 ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru (yr enw blaenorol ar sefydliad Cwmpas). Teitl yr adroddiad oedd "Co-operative development in the Welsh agri-food sector". Wrth edrych ymlaen at sut rydym yn meddwl eto am gydweithio a chwmnïau cydfuddiannol, rhaid inni beidio ag anghofio bod Cymru'n gartref i rai cwmnïau cydweithredol hirsefydledig ym maes amaeth, ac mae enghreifftiau ohonynt yn yr adroddiad.

Roedd Jon am siarad am ddau faes o ddiddordeb lle gall cydweithio gynyddu, gan arwain at effeithiau polisi – yn gyntaf, yn y sector pysgodfeydd a bwyd môr. Soniodd Jon am enghreifftiau ymarferol – mae'n gymhwysedd sydd wedi'i ddatganoli'n llawn ac yn adnodd a reolir gan Lywodraeth Cymru. Er nad oes amcan nodedig yn y rhaglen lywodraethu ar gyfer y maes hwn, mae'n faes byw iawn. Un o'r cysyniadau sydd wedi cael ei drafod ers tro yw'r syniad o gydreoli. Yn draddodiadol, mae Cymru wedi mabwysiadu dull o reoli drwy reoleiddio, tra bod cydreoli yn golygu bod rhanddeiliaid lluosog yn eistedd wrth y bwrdd, ochr yn ochr â'r Llywodraeth, mewn ymdrech i greu consensws ynghylch y broses o reoli a sut mae'n digwydd. Mae tystiolaeth helaeth fod y dull hwn wedi bod yn llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r byd, ac mae enghreifftiau gwych ynghylch ble mae wedi gweithio. Er mwyn sicrhau cynnydd o ran cydweithio, mae'r cam o fabwysiadu egwyddorion cydreoli yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru symud tuag ato, a bydd hyn yn lleihau'r baich o ran rheoleiddio pysgodfeydd.

Rydym yn chwilio am arweinyddiaeth o ran y broses o greu'r strwythurau sydd eu hangen ar gyfer cydweithio a chydreoli'r adnodd hwn. Tyfu yn y gymuned a marchnadoedd ffermio – rydym wedi gweld y prosiect *Stump up for Trees* yn cyflawni rhai o'r amcanion ynghylch plannu coed ar lefel menter gymdeithasol. Rydym wedi ceisio sicrhau cydweithrediad ffermwyr o ran arwain y ffordd ynghylch mesurau lliniaru nitrig gwirfoddol, sy'n gysylltiedig â'r gwaith y gallwn ei wneud ar farchnadoedd cyfalaf ym maes natur. Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa'n debyg i'r gorllewin gwyllt, a dweud y gwir, ac rydym wedi clywed mewn sesiynau yn y Senedd am y broses o brynu tir corfforaethol ar gyfer plannu coed at ddibenion sy'n gysylltiedig â charbon. Mae hwn yn faes y mae'r Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad yn edrych arno'n fanwl, a hynny er mwyn gwyrdroi'r elfen fasnach.

O ran bwyd cymunedol a thyfu cymunedol, mae teimlad bod cornel wedi'i throi, ac mae gweithgarwch yn cynyddu'n fawr. Mae defnyddwyr am gael mynediad at fwyd cymunedol. Mae problemau o ran y cyflenwad a'r galw, ac mae cyfleoedd ar gyfer creu partneriaethau a chydweithio, o ran sut y gallwn strwythuro hyn. Mae'r ymarfer mapio diweddaraf yn dangos yr angen am ymyrraeth o ran y cyflenwad o fwyd cymunedol a'r broses o rymuso cymunedau i dyfu, a gosod hyn yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd. Mae gofod clir yma ar gyfer cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.

<u>Martin Downes, Cwmpas</u>

Gwnaeth Martin Downes o *Start Something Good*, sy'n un o brosiectau Cwmpas, sôn am y gwaith a wneir drwy'r prosiect i geisio ymgysylltu â chymunedau mewn perthynas ag atebion sy'n seiliedig ar fentrau cymdeithasol. Mae'r gweithdai syniadaeth cyflym a ddefnyddir yn y diwydiant technoleg wedi cael eu cymhwyso i'r broses o ganfod syniadau newydd ar gyfer problemau cymdeithasol, a hynny mewn cyd-destun lle mae cydweithio yn cael ei flaenoriaethu dros gystadlu. Rhoddodd Martin drosolwg o ble mae gweithgareddau Hack wedi digwydd ledled Cymru, ym mha gyd-destun, a chyda pha sefydliadau partner.

Soniodd Martin am sut mae gweithgareddau Hack wedi hwyluso'r broses o ddwyn pobl ynghyd i greu syniadau newydd ar gyfer newid cymdeithasol, gan fynd i'r afael â heriau y mae pobl yn poeni amdanynt ac wedi cael profiad ohonynt, a hynny drwy ethos o dosturi, dewrder, creadigrwydd a gweithio er lles pawb. Maent yn cynnig gofod lle mae pobl yn rhannu sgiliau, yn magu hyder ac yn datblygu galluoedd gyda thimau amrywiol a democrataidd er mwyn ysgogi syniadaeth. Maent yn cynyddu gallu cymunedau i gymryd rhan mewn gweithgarwch arloesi.

Yn dilyn y cyflwyniadau, cafodd y panelwyr a'r gynulleidfa drafodaeth ynghylch sut y gellir bwrw ymlaen â'r syniadau hyn, sut y gall cymunedau gymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisi, a phwysigrwydd cynaliadwyedd, monitro a gwerthuso. Ar ran Vikki Howells AS, daeth Dan Roberts â'r cyfarfod i ben, gan wahodd y rhai a oedd yn bresennol i barhau i ymgysylltu â'r grŵp a'i gyfarfodydd yn y dyfodol.